Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Cynaliadwyedd:** Adroddiad Blynyddol 2025-26

Gorffennaf 2026



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Cynaliadwyedd:** Adroddiad Blynyddol 2025-26

Gorffennaf 2026

senedd.cymru



# Cynnwys

**Cyflwyniad** ... 6
**Crynodeb o berfformiad** ... 7
**Carbon** ... 8
**Ynni** ... 14
**Gwastraff, dŵr ac adnoddau eraill** ... 16
**Teithio** ... 18
**Bioamrywiaeth** ... 20
**Addasu i newid hinsawdd ac effeithiau eraill** ... 22
**Rhanddeiliaid eraill** ... 23
**Rheoli Amgylcheddol** ... 24
**Atodiad A – Tablau Data** ... 25



**Janet Finch-Saunders AS**
Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am ddatblygu cynaliadwy

# Cyflwyniad

## Yn y flwyddyn etholiadol hon, mae ein hystad wedi bod yn brysurach ac, o ganlyniad, gwelwyd cynnydd mewn rhai metrigau cynaliadwyedd. Fodd bynnag, rydym wedi lleihau ein defnydd o nwy ac mae ein hôl troed carbon craidd wedi lleihau yn sylweddol, gan ddod â ni o dan ein targed blynyddol.

Mae eitemau sylweddol yn ein strategaeth carbon yn parhau i symud ymlaen. Rydym ar fin cysylltu â'r rhwydwaith gwresogi ardal a nod ein prosiect Bae 32 yw sicrhau bod ein swyddfeydd yn y dyfodol mor gynaliadwy a charbon isel â phosibl.

Aeth ein hallyriadau cwmpas 3 ehangach i fyny eleni, a hynny oherwydd yr holl waith strwythurol mawr a gynhaliwyd ar yr ystad i baratoi ar gyfer y Seithfed Senedd. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran gwella proses adrodd cwmpas 3, gydag intern ar ein cynllun Ymlaen yn dylunio system newydd i wella cywirdeb adrodd gan gyflenwyr. Mae'n ddyddiau cynnar ar y peth o hyd, ond bydd yn ein helpu i adrodd data yn gywirach yn y meysydd adrodd carbon hyn sy'n dod i'r amlwg a bydd yn rhoi inni fwy o eglurder ar gyfer meysydd i'w targedu yn y dyfodol.

## Crynodeb o berfformiad

Ar gyfer 2025-26, rydym wedi gweld cynnydd pellach mewn gweithgarwch ar yr ystad, yn enwedig wrth inni baratoi ar gyfer yr etholiad ar gyfer y Seithfed Senedd. Mae hyn wedi arwain at gynnydd mewn sawl metrig cynaliadwyedd – gan gynnwys teithio busnes, y defnydd o ddŵr, a chynhyrchu gwastraff bwyd. Rhwng bod yr adeiladau yn brysurach a'r haf yn gynhesach, mae'r defnydd o drydan wedi cynyddu ychydig, ond oherwydd mesurau effeithlonrwydd, mae hyn wedi bod yn llai nag y buasai fel arall.

Ar ôl y cynnydd mawr iawn mewn costau ynni ychydig flynyddoedd yn ôl, mae prisiau'n parhau i ostwng ac mae ein gwariant ar gyfleustodau yn adlewyrchu hyn. Er gwaethaf lefelau defnydd tebyg, mae biliau i lawr tua thraean o'r lle roeddent ar eu hanterth. Fodd bynnag, mae'r diwydiant dŵr yn mynd yn groes i'r duedd hon, gyda chodiadau ar draws y diwydiant yn cael eu hadlewyrchu mewn cynnydd yn ein biliau o tua 30%, er gwaethaf lefelau tebyg o ddefnydd dŵr.

Bydd y Seithfed Senedd yn fwy: bydd ganddi fwy o Aelodau a mwy o staff cymorth. O'r herwydd, rydym yn disgwyl gweld cynnydd yn yr effeithiau cynaliadwyedd. Bydd ein gwaith dros y flwyddyn i ddod yn canolbwyntio ar leihau'r effaith hon ac ar sicrhau bod ein Strategaeth Carbon hirdymor a phrosiect Bae 32 wedi'u halinio i sicrhau dyfodol carbon isel i'r sefydliad.


Rydym yn parhau i weithredu system reoli wedi'i hardystio'n amgylcheddol, sy'n cynnwys archwiliad blynyddol gan gorff a achredir gan UKAS yn ôl gofynion ISO14001.

# Carbon

## Mae ein hôl troed carbon craidd wedi lleihau eleni, gyda llai o alw am wresogi a llai o deithio awyr ill dau yn cyfrannu at hyn. Gostyngodd ffactor trosi grid trydan y DU eleni hefyd, ar ôl dwy flynedd ar yr un lefel, oherwydd cynnydd yn y defnydd o ynni adnewyddadwy ar draws y rhwydwaith. Rydym wedi elwa o hyn; mae ein defnydd o drydan yn codi ychydig ond mae'r gydran hon o'n hôl troed carbon yn gostwng.

Ar ôl adrodd ein bod uwchlaw ein targed carbon dros dro y llynedd, rydym wedi gostwng yn ôl islaw targed eleni. Mae'r targedau interim blynyddol hyn yn helpu i olrhain cynnydd tuag at ein nod carbon niwtral net gwreiddiol yn 2030, a nodir yn ein strategaeth Hwyl Fawr i Garbon, a gyhoeddwyd yn 2021. O ystyried newidiadau i'r dirwedd adrodd ar garbon, yng Nghymru a'r DU yn ehangach ers 2021, yn enwedig o ran gwrthbwyso ac allyriadau Cwmpas 3 (cyflenwr), byddwn yn adolygu'r strategaeth hon dros y flwyddyn nesaf. Bydd yr adolygiad hwn yn dod ar adeg gyfleus yn esblygiad y sefydliad, rhwng ein gallu i ystyried effeithiau Seithfed Senedd fwy a’r penderfyniad ar brosiect Bae 32 ynghylch swyddfeydd yn y dyfodol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn ddigon ffodus i gael intern yn gwella ein data carbon Cwmpas 3 drwy weithio gyda chyflenwyr a thimau caffael i wneud y wybodaeth hon yn fwy cyfannol a chywir. Mae hyn, yn y lle cyntaf, wedi arwain at gynnydd yn y data ôl-troed carbon ehangach hyn, gan fod mwy wedi'u cynnwys yng nghwmpas y gwaith.  Ond bydd y gwaith sylfaenol hwn yn ein galluogi i wneud penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch carbon wrth brynu nwyddau a gwasanaethau yn y dyfodol, a sicrhau ein bod yn gweithredu model arfer gorau o adrodd ar garbon. Mae rhagor o wybodaeth am y fethodoleg hon ar gael yn y prif Adroddiad Blynyddol Cynaliadwyedd.




*Mae ein hôl troed carbon craidd yn dangos gostyngiad bach eleni*

## Cwmpas 3

Mae ein hallyriadau cwmpas 3 ehangach wedi cynyddu eleni, yn bennaf o ganlyniad i ehangu Siambr y Senedd.


Ers inni ddechrau adrodd ar allyriadau Caffael ychydig flynyddoedd yn ôl, dyma fu'r elfen unigol fwyaf o'n hôl troed carbon, yn debyg i sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus. Gellir gweld hyn yn glir yn y graff isod. Dyma'r adran sydd wedi newid fwyaf eleni. Rydym wedi caffael offer, deunyddiau ac amser contractwyr, i gyd ar gyfer ehangu Siambr y Senedd a sicrhau ei bod yn cyrraedd safonau mwy modern. Rydym hefyd wedi gwella elfennau ohoni i'w diogelu rhag newidiadau pellach yn y dyfodol ac i wella ei gwydnwch mewn perthynas â'r hinsawdd drwy uwchraddio elfennau gwresogi ac oeri. Fel mae'r astudiaeth achos yn ei ddangos, roedd y prosiect yn cynnwys rhai mentrau cynaliadwyedd gwych, gan gynnwys ailddefnyddio 70% o'r derw Cymreig yn y desgiau, a defnyddio contractwyr lleol i wneud y gwaith.

Ni welwyd fawr o newid yn y rhan fwyaf o gydrannau cwmpas 3 ers y llynedd, ond mae Teithio Busnes yn un maes sydd wedi lleihau. Rydym wedi gweld gostyngiad bach yn y defnydd o deithio awyr; y modd mwyaf arwyddocaol o ran carbon o bell ffordd. Byddwn yn parhau i weithio i annog pobl i beidio â hedfan lle bo modd, gan gynnwys drwy hyrwyddo'r hierarchaeth deithio i bob Aelod newydd a'r staff cymorth.

Oherwydd y gwaith gwych gan ein hintern Ymlaen yn ystod 2025/26, gwelwyd gwelliannau sylweddol yn ein ffordd o reoli allyriadau cyflenwyr. Er nad ydym

eto wedi gweithredu system i wella cywirdeb data caffael yn llawn, rydym wedi bod yn treialu un gyda'r 25 o'n prif gyflenwr gorau. Bydd y gwaith hwn yn parhau fel y gallwn symud i ffwrdd o allyriadau sy'n seiliedig ar wariant ar gyfer pob prif gyflenwr yn y dyfodol agos.

***Carbon Cwmpas 3 (tCo2e), 2025-26***




## Strategaeth Lleihau Carbon – Cynnydd

Mae cynnydd wedi parhau gyda'r mesurau a dargedwyd yn Hwyl Fawr i Garbon – ein strategaeth carbon sy'n mynd â ni hyd at 2030. Ar ôl gwaith cytundebol, diwydrwydd dyladwy a seilwaith sylweddol, rydym yn barod i gysylltu â rhwydwaith gwres Caerdydd; yr eitem unigol fwyaf ar gyfer lleihau carbon yn y strategaeth. Mae disgwyl i wres gael ei gyflenwi i adeiladau'r Senedd a Thŷ Hywel yng ngwanwyn 2026, o fewn y cyfnod canol tymor yr oeddem wedi gobeithio amdano. Mae hynny'n caniatáu inni weithredu'r system yn llawn cyn cyfnod gwresogi'r gaeaf.

Rydym wedi parhau i gyflwyno goleuadau LED i rai rhannau eraill o'r ystâd; mae'r cyfan yn helpu i leihau'r defnydd o drydan a lleihau ein hôl troed carbon. Mae'r ffactor trosi ar gyfer trydan wedi newid eto eleni, er gwell – mae wedi gostwng o ganlyniad i gynnydd yn y defnydd o ynni adnewyddadwy yn y grid cenedlaethol.

Rydym yn parhau i hyrwyddo teithio llesol ac iach, sy’n cael effaith fach ar ein hôl troed carbon. Mae gennym ystod o fesurau teithio cynaliadwy ar waith, gan gynnwys cynlluniau beicio i'r gwaith a beiciau at ddefnydd pawb, pwyntiau gwefru ar gyfer cerbydau trydan, a chynllun aberthu cyflog ar gyfer cerbydau trydan. Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o'r rhain yn fuan ar ôl seithfed etholiad y Senedd, gan obeithio denu Aelodau newydd a'u staff cymorth.

Yn ein hadroddiad blaenorol, gwnaethom sôn am yr astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer unedau trin aer (AHUs) wedi'u hadnewyddu ar gyfer Tŷ Hywel, sef ein prif adeilad swyddfeydd. Er i hwnnw gael ei gynnal, nid yw'r gwaith ei hun yn mynd rhagddo ar hyn o bryd wrth inni symud ymlaen â phrosiect Bae 32, sy'n asesu opsiynau ar gyfer ein swyddfeydd yn y dyfodol. Mae cynaliadwyedd wrth wraidd y prosiect hwn wrth inni fynd ati i dargedu’r mesurau carbon ymgorfforedig a gweithredol isaf posibl.

B

## TARGED TYMOR BYR: (2021-2023)

Newid ymddygiad a chynnal a chadw da — **100**

**2023**: 100% wedi'i gwblhau

Gwelliannau BMS (tri adeilad) — **59**

**2025**: 60% wedi'i gwblhau

Monitro – meddalwedd a mesuryddion ychwanegol — **52**

**2023**: 100% wedi'i gwblhau

Goleuadau LED: parhau i'w hamnewid ac adolygu'r rheolaethau — **30**

**2025**: 95% wedi'i gwblhau

**= ARBED 241 O DUNELLI O GARBON Y FLWYDDYN**

## TARGED TYMOR CANOLIG: (2023-2026)

Ailwampio unedau trin aer — **42**

Cysylltu â rhwydwaith gwresogi ardal — **132**

**2025**: 95% wedi'i gwblhau

Symud Tŷ Hywel yn ôl i awyru goddefol — **97**

Gosod PV solar (Senedd a Thŷ Hywel) — **60**

**= ARBED 331 O DUNELLI O GARBON Y FLWYDDYN**

# Lleihau Carbon

Isod mae crynodeb o'r cerrig milltir yn ein Strategaeth Niwtral o ran Carbon Neutral Strategy 2021-2030. Mae'r cynnydd yn ôl ein targedau tymor byr wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2025-26.

Mae'r Strategaeth lawn ar gael ar ein gwefan **www.senedd.cymru**

C

H

**TARGED TYMOR HIR: (BY 2030)**

| | |
|---|---|
| Pympiau gwres o'r awyr ar gyfer cyflenwad dŵr poeth | **10** |
| Archwilio newidiadau i lwfansau teithio a chynhaliaeth i annog y defnydd o gerbydau trydan dros gerbydau â pheiriant tanio mewnol [1] | **82** |

**= ARBED 10 I 92 O DUNELLI O GARBON Y FLWYDDYN**

[1] ar sail lefel gyfredol yr hawliadau ceir preifat a mabwysiadu cardiau RFID, ffigur carbon ar gyfer milltiroedd mewn car maint canolig.

# Ynni

## Ar ôl anwadalrwydd cwpl o flynyddoedd yn ôl, mae prisiau ynni yn parhau i ostwng. Mewn ymateb i adborth gan randdeiliaid, rydym wedi cadw pwyntiau gosod yn gyson ar draws ein hystad, yn dilyn rhai gostyngiadau pan oedd prisiau ar eu hanterth. Mae hyn wedi ein galluogi i gymharu'n agosach â'r llynedd, gan gynnwys pa mor dda y mae'r adeiladau'n ymateb i dymheredd y tu allan a sylwi ar yr arbedion o osod offer mwy effeithlon o ran ynni.

Mae'r defnydd o nwy wedi gostwng eto eleni – i lefel sy'n gymharol â dwy flynedd yn ôl. Adlewyrchwyd y flwyddyn oerach a gawsom y llynedd, a'r defnydd cynyddol o nwy, yn y data Dyddiau Gradd – gan ddangos bod galw gwirioneddol am fwy o wresogi. Fodd bynnag, mae hynny wedi gostwng eleni, gyda'r gostyngiad yn y defnydd o nwy hyd yn oed yn fwy na'r gostyngiad mewn Dyddiau Gradd (20% o'i gymharu ag 11%). Mae costau nwy cyfanwerthu wedi gostwng hefyd; ynghyd â defnydd is gwelsom ostyngiad sylweddol mewn gwariant ar nwy (30%+).

Cynyddodd y defnydd o drydan ychydig yn ystod y cyfnod hwn – cynnydd o 2% ar y llynedd. Mae nifer o newidynnau wedi cyfrannu at hyn, gan gynnwys haf cynhesach yn 2025 nag yn 2024 (mwy na dyblu nifer y Dyddiau Gradd Oeri), a boeleri adeilad y Pierhead allan o wasanaeth; gan olygu bod angen trydan i gynhesu rhywfaint o'r adeilad. O ystyried y ffactorau hyn, mae'r cynnydd o 2% yn is na'r hyn y gellid bod wedi'i ddisgwyl, sy'n dyst i fesurau effeithlonrwydd pellach, gan gynnwys gosod mwy o oleuadau LED ar yr ystad. Gostyngodd costau trydan eleni hefyd, gyda'n gwariant bron i 30% yn is nag yn 2024/5.

Rydym yn parhau i brynu ein hynni drwy fframwaith y llywodraeth, dros ffenestr brynu hirdymor. Mae hyn yn cynnig arbedion o ran maint, gan ein bod yn prynu ochr yn ochr â llawer o weddill y sector cyhoeddus, ac mae'r strategaeth brynu

yn llyfnhau amrywiadau yn y farchnad; gan ganiatáu inni ragweld gwariant yn fwy cywir.

Dros y flwyddyn nesaf, un newid sylweddol i'r defnydd o ynni fydd cysylltu ein dau adeilad mwyaf (Tŷ Hywel a'r Senedd) â Rhwydwaith Gwres Caerdydd. Bydd hyn yn rhoi cyflenwad lleol, gwydn o ynni carbon isel i ni ac yn helpu i leihau ein hôl troed carbon ymhellach.

# Gwastraff, dŵr ac adnoddau eraill


## Mae’r gwastraff a gynhyrchir wedi gostwng eleni – i lawr i'r tunelledd cyffredinol yr oeddem yn ei weld ddwy flynedd yn ôl. Anfonwyd yr holl wastraff i'w ailgylchu neu i adfer ynni, ac nid i safleoedd tirlenwi. Fodd bynnag, rydym wedi cynyddu'r ganran sy'n cael ei hailgylchu.

Gwelsom hefyd gynnydd yn y gwastraff bwyd sy'n cael ei gompostio – yn bennaf oherwydd mwy o weithgarwch ar yr ystad, drwy fwy o ddefnydd o'r ffreutur a'r galw am arlwyo ar gyfer digwyddiadau.


Dros y flwyddyn nesaf – yn enwedig wrth inni wneud newidiadau i'n hystad i baratoi ar gyfer y Senedd ar ei newydd wedd – byddwn yn adolygu argaeledd biniau ailgylchu o amgylch ein hadeiladau, a’r ymwybyddiaeth ohonynt, unwaith eto ac yn annog Aelodau, staff ac ymwelwyr i ailgylchu cymaint â phosibl.

Mae'r defnydd o ddŵr wedi cynyddu ychydig, tua 12%, ac unwaith eto mae hyn mewn ymateb i weithgarwch cynyddol ar yr ystad dros y flwyddyn ddiwethaf i raddau helaeth. Fodd bynnag, mae costau dŵr wedi codi'n sylweddol; cynnydd o 30% ar gyfer taliadau cyflenwi a charthffosiaeth dros y 12 mis diwethaf. Mae hwn yn gynnydd pris uniongyrchol gan ein cyflenwr ac mae'n arwydd bras o gynnydd ar draws y sector. Gan mai dim ond un cyflenwr sydd ar gael ym mhob ardal, ni allwn ond targedu arbedion effeithlonrwydd i leihau ein gwariant yma.

Rydym yn parhau i gaffael nwyddau fel deunydd ysgrifennu a’n cyfleustodau drwy fframweithiau Llywodraeth Cymru a gydgysylltir yn ganolog. Mae staff cynaliadwyedd yn ymwneud â’r gwaith o ddatblygu manylebau ac adolygiadau tendro ar gyfer pob contract mawr, gan sicrhau bod safonau fel Masnach Deg a’r Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC) yn cael eu pennu lle y bo’n berthnasol. At hynny, rydym wedi parhau i ofyn i gyflenwyr newydd gyfrifo ôl troed carbon nwyddau lle bo modd, er mwyn ein helpu i gyfrifo ein hôl troed ein hunain yn fwy manwl gywir.




*Mae tunelledd gwastraff wedi gostwng eleni*




*Mae ein defnydd o ddŵr yn amrywio dros amser mewn ymateb i newidynnau megis digwyddiadau, deiliadaeth adeiladau, a gwaith cynnal a chadw, a gwelwyd cynnydd bach eleni.*

# Teithio

## Ar ôl cynnydd mewn allyriadau teithio y llynedd, yn enwedig cynnydd mewn teithio awyr, rydym wedi gweld gostyngiad bach eleni. Mae costau teithio a hawliadau cyffredinol yn uwch nag mewn rhai blynyddoedd, fodd bynnag; patrwm a welsom yn flaenorol mewn blwyddyn cyn etholiad.


Rydym yn parhau i hyrwyddo'r hierarchaeth deithio i staff ac Aelodau, ond byddwn yn ymchwilio i fesurau mwy gweithredol i leihau allyriadau yn y Senedd newydd.

Mae cerbydau trydan yn ddull trafnidiaeth carbon isel yr ydym yn parhau i'w gefnogi. Rydym yn gweithredu car trydan at ddefnydd pawb, ar gyfer teithiau busnes a gwaith ymgysylltu. Mae hyn nid yn unig yn lleihau allyriadau yn yr ardaloedd yr ydym yn ymweld â hwy, ond hefyd yn hyrwyddo'r dechnoleg hon. Mae gennym bwyntiau gwefru ar yr ystad at ddefnydd gyrwyr cerbydau trydan; mae'r rhain hollol brysur ar ddiwrnodau busnes. Rydym hefyd yn gweithredu cynllun aberthu cyflog ar gyfer cerbydau trydan, yn enwedig i hyrwyddo teithio allyriadau isel i'r rhai sy'n gorfod gyrru i'r gwaith, gan gynnwys teithiau gan yr Aelodau o amgylch eu hetholaethau.

Rydym yn parhau i gefnogi gweithio hybrid, ac mae gennym systemau TG helaeth ar waith i wneud hynny, o ystafelloedd cyfarfodydd hybrid i dechnoleg cyfarfodydd rhithwir sy'n gwella'n barhaus.

Rydym yn parhau i fod yn aelod o grŵp y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus ar gyfer teithio llesol ac wedi cyflawni nod siarter y Cyflogwr Teithio Iach. Mae hyn yn adlewyrchu ein cyfleusterau helaeth ar gyfer y rhai sy'n cerdded ac yn beicio i'r gwaith, yn ogystal â chyfleusterau ar gyfer gyrwyr cerbydau trydan a defnyddwyr e-feiciau.

Byddwn yn cynnal ein Hwythnos Werdd flynyddol ar yr ystad ychydig wythnosau ar ôl yr etholiad, gan fanteisio ar y cyfle hwn i annog Aelodau newydd a staff cymorth i ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy.




*Yn ôl y data yn ein Harolwg Teithio, a gynhelir bob yn eilflwydd, mae ceir mwy effeithlon yn cael eu defnyddio, ond mae'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus wedi gostwng yn sylweddol ers y pandemig*

# Bioamrywiaeth

## Mae’r ffaith bod gennym ystad fach drefol yn cyfyngu ar yr effaith y gallwn ei chael ar fioamrywiaeth ehangach yr ardal, ond nid yw hyn wedi ein hatal rhag gwneud gwelliannau lle bynnag y bo modd.

Mae'r rhain yn cynnwys mesurau ffisegol o amgylch yr adeiladau ac o ran caffael; gwneud penderfyniadau cyfrifol ynghylch cyrchu deunyddiau crai – gan nodi opsiynau fel pren FSC.

Rydym yn parhau i hyrwyddo amrywiaeth cynefinoedd i annog bioamrywiaeth ar ein hystad. Mae'r stribed o ardd yn ffynnu ac yn llawn planhigion sy'n ystyriol o beillwyr, ynghyd â phwll dŵr bach a choed ffrwythau sydd yn eu blodau ar hyn o bryd. Mae parhau â'r gyfundrefn dorri gyfyngedig ar y tir wrth ochr y Senedd wedi caniatáu iddo gynhyrchu ystod eang o fflora, gan gynnwys dau fath o degeirianau. Mae'r ardal hon bellach yn denu amrywiaeth o bryfed, gan gynnwys mursennod a gloÿnnod byw.

Mae gan ardal y gwestai trychfilod werth sawl blwyddyn o foncyffion coed Nadolig mewn gwahanol gyflyrau o bydredd, gyda thyllau ychwanegol wedi'u drilio i gynnal pryfed sy'n nythu. Mae'r gwestai bach eu hunain, wedi'u lleoli ar y wal sy'n wynebu'r de uwchben y pentwr o foncyffion, yn boblogaidd iawn gyda gwenyn unig ac mae eu gwylio’n gyfareddol!

Ar ôl blwyddyn anodd i wenyn y Pierhead yn 2024, cawsom ein calonogi o weld llawer mwy o fêl yn y diliau tua diwedd yr haf yn 2025. Roedd tywydd ac amodau tyfu mwy ffafriol wedi golygu bod stociau'n uwch yn ein dau gwch gwenyn, ac roeddem yn gallu cynaeafu mêl am y tro cyntaf ers cwpl o flynyddoedd. Mae gwerthiant y mêl yn cynhyrchu swm bach o arian parod y gellir ei roi yn ôl i'r prosiect i sicrhau ei gynaliadwyedd.

| Nod | Camau i'w cymryd | Cynnydd |
|---|---|---|
| Ymgorffori bioamrywiaeth ym mhrosesau penderfynu | Rydym yn parhau i weithredu system rheoli amgylcheddol ardystiedig ISO14001, gan gynnwys cynllun gweithredu sy'n cynnwys mesurau bioamrywiaeth. | Archwiliad llwyddiannus eto ym mis Ionawr 2026 yn erbyn y gofynion. |
| | Cynnal asesiadau risg cynaliadwyedd ar gyfer contractau caffael mawr, gan gynnwys ystyriaethau bioamrywiaeth. | Wedi'i gwblhau, yn mynd rhagddo. Rydym yn parhau i gynnal yr asesiadau hyn ac yn chwilio am fioamrywiaeth sy'n berthnasol mewn contractau newydd. |
| | Addasu'r offeryn asesu effaith ar gynaliadwyedd, i gynnwys ystyriaethau bioamrywiaeth. | Y gwaith yn mynd rhagddo. |
| Diogelu rhywogaethau pwysig | Gosod blychau gwenoliaid ar Dŷ Hywel. | Wedi'i gwblhau, mis Mai 2019, er nad oes gwenoliaid yn y blychau, hyd yn hyn. |
| | Gosod gwestai trychfilod i annog gwenyn unig. | Wedi'i gwblhau, 2022. Yn cael ei ddefnyddio'n helaeth yn ystod misoedd yr haf, erbyn hyn.<br>2025/26- boncyffion coed newydd wedi'u hychwanegu gyda thyllau i bryfed nythu ynddynt. |
| Adfer a chreu cynefinoedd | Newid y drefn torri gwair ar gyfer tir wrth ymyl y Senedd i doriadau blynyddol. | Wedi'i gwblhau, yn mynd rhagddo. Drwy dorri unwaith y flwyddyn yn unig, rydym yn gweld amrywiaeth eang o bryfed a phlanhigion yn byw yn yr ardal. |
| | Ymestyn stribed gardd Tŷ Hywel a chynnwys planhigion sy'n gyfeillgar i beillwyr, ac ail bwll. | Wedi'i gwblhau, yn mynd rhagddo. Rydym yn cynnal yr ardd newydd hon sy'n ffynnu, erbyn hyn, gyda phlanhigion wedi'u plannu ac wedi egino'n naturiol. |
| Gwella tystiolaeth a dealltwriaeth | Ailgychwyn arolygon peillwyr o'r stribed blodau gwyllt a'r ardal ardd. | Y gwaith yn mynd rhagddo. Rydym wedi dechrau'r rhain ond mae angen gwerth rhai blynyddoedd o ddata i ddarparu gwerth. |
| | Ymchwilio i ddichonoldeb darparu hyfforddiant llythrennedd hinsawdd i staff allweddol. | Y gwaith yn mynd rhagddo. Pecyn hyfforddiant bellach wedi'i gwblhau. I'w gyflwyno i staff yn ystod 2026/27. |

# Addasu i newid hinsawdd ac effeithiau eraill

Er bod cylch dylanwad ein Haelodau yn cynnwys pob rhan o fywydau pobl yng Nghymru, mae gweithrediadau Comisiwn y Senedd yn gymharol gyfyngedig, yn bennaf i'n hadeiladau ym Mae Caerdydd a swyddfa fach yng ngogledd Cymru.

Ar hyn o bryd, rydym wedi ein hamddiffyn rhag rhai o effeithiau gwaethaf newid hinsawdd, ond rydym yn paratoi ar gyfer hinsawdd sy'n newid. Er enghraifft, mae ein hystad ym Mae Caerdydd yn cael ei diogelu i ryw raddau gan forglawdd Bae Caerdydd. Yn y tymor hwy, mae ein Strategaeth Carbon Niwtral yn cynnwys mesurau megis paneli solar, sy'n darparu amddiffyniad pellach rhag dyfodol ansicr.

Roedd ein camau gweithredu dros y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Gweithio gydag Awdurdod Harbwr Caerdydd a rhanddeiliaid eraill i wella ymwybyddiaeth o lifogydd
- Cynnal astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer ailosod cylch oes yr unedau trin aer sy'n oeri ein prif adeilad swyddfa (Tŷ Hywel). Bydd hyn bellach yn digwydd o dan fantell Bae 32
- Datblygu rhaglen hyfforddi llythrennedd hinsawdd
- Hyrwyddo opsiynau teithio cynaliadwy a hunangynhaliol
- Mae ein camau gweithredu ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys:
- Datblygu'r datrysiad Bae 32, i gynnwys nodweddion cynaliadwyedd a gwydnwch hinsawdd.
- Cwblhau astudiaeth draenio o un o'n hadeiladau, er mwyn asesu parodrwydd ar gyfer glaw eithafol a defnyddio hyn fel enghraifft ar gyfer adeiladau eraill (yn weddill ers y llynedd).
- Cyflwyno hyfforddiant llythrennedd hinsawdd.

## Rhanddeiliaid eraill

Nid yw ein gwaith cynaliadwyedd bob amser wedi ei gyfyngu i’r ystad, Aelodau, eu staff cymorth a staff y Comisiwn, ond mae’n dod â ni i gysylltiad â rhanddeiliaid eraill sy’n ystyried yr amgylchedd.

Rydym wedi gweithio gyda Senedd Ieuenctid Cymru ac yn parhau i gefnogi gweithgareddau ymgysylltu â llawer o grwpiau ysgol a phobl ifanc eraill. Mae hyn yn cynnwys gwaith ynghylch rôl y Senedd, ond hefyd gweithgareddau fel ymweliadau â Gwenyn y Pierhead i ddysgu am beillwyr a bioamrywiaeth.

Rydym yn gweithio’n agos gyda sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus i rannu arfer gorau, yn enwedig seneddau eraill y Deyrnas Unedig. Mae'r fforymau hyn yn helpu gyda chysondeb wrth ymateb i bolisi ac aros o flaen y gromlin. O ystyried gorgyffwrdd o ran cyflenwyr, bydd hefyd yn helpu i sicrhau ein bod ni’n cymryd ymagwedd gyson â'r gadwyn gyflenwi wrth fynd i'r afael â'n hallyriadau cwmpas 3 yn y dyfodol.

Roedd ein gwaith i gefnogi’r broses o ehangu siambr y Senedd mewn modd cynaliadwy’n cynnwys ymgysylltu â'r ysgol bensaernïaeth leol. Roedd myfyrwyr yn gallu dysgu am ddatblygiad y Siambr, yr ailddefnyddio o ddeunyddiau, a’r modd y cyflogwyd contractwyr lleol, a hyd yn oed holi un o'r penseiri am eu dyluniad.

# Rheoli Amgylcheddol

## Mae Comisiwn y Senedd wedi cynnal system rheolaeth amgylcheddol ffurfiol ers dros ddegawd.

Rydym yn credu mewn tryloywder yn ogystal â gosod y safonau uchaf i ni ein hunain, a dyna pam rydym yn cynnal system rheoli amgylcheddol sy'n cael ei harchwilio'n allanol yn unol â gofynion ISO14001. Mae'r safon reoli hon yn mynnu bod amrywiaeth o gamau yn cael eu dangos mewn archwiliad allanol, gan gynnwys rheolaethau ar effeithiau amgylcheddol allweddol, cydymffurfio â deddfwriaeth, a rhaglen o archwiliadau mewnol. Mae gennym dîm o archwilwyr mewnol hyfforddedig sy'n gwirio'r safle ffisegol a'n rheolaethau gweithredol i sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio'n gyson drwy gydol y flwyddyn. Mae'r archwilwyr hefyd yn gwirio risg llygredd ac yn chwilio am arbedion effeithlonrwydd lle bo hynny'n bosibl.

Rydym yn parhau i weithio gyda chyrff sector cyhoeddus eraill yng Nghymru, yn ogystal â seneddau eraill y Deyrnas Unedig, er mwyn rhannu arfer gorau wrth wella'r amgylchedd yn barhaus.

LRQA CERTIFIED ISO 14001

UKAS MANAGEMENT SYSTEMS 0001

# Atodiad A – Tablau Data

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr net cwmpasau 1, 2 a 3 (teithio busnes, dŵr, gwastraff), $tCO_2e$ | 1,150 | 764 | 861 | 859 | 851 | 891 | **757** |
| Cyfanswm yr allyriadau ynni, $tCO_2e$ | 962 | 730 | 799 | 701 | 686 | 703 | **598** |
| NEWYDD – Cyfanswm allyriadau Cwmpas 3 (teithio, gweithio gartref, nwyddau a gwasanaethau, cymudo) | | | | 2,841 | 2,879 | 3,530 | **4,848** |
| Cyfanswm y gwastraff (tunelli) | 100 | 41 | 50 | 63 | 63 | 80 | **67** |
| Cyfanswm y dŵr a ddefnyddiwyd, $m^3$ | 6,281 | 2,802 | 3,191 | 4,408 | 4,227 | 3,759 | **4,198** |
| Cyfanswm yr allyriadau teithio ar fusnes, $tCO_2e$ | 180 | 24 | 67 | 140 | 163 | 193 | **158** |
| Y defnydd o bapur (miliwn o ddalennau) | 2.33 | 0.86 | 0.65 | 1.97 | 2.05 | 1.97 | **1.53** |

** Nid yw'n cynnwys teithio gan Aelodau a'u staff cymorth rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2025 oherwydd oedi o ran gofynion adrodd. Addaswyd blynyddoedd blaenorol wrth i hawliadau terfynol ar gyfer y blynyddoedd hynny gael eu prosesu.*





Senedd Cymru
Welsh Parliament

www.senedd.cymru | www.senedd.wales